Housemates - Mark Douet

Hijinx

PECYN CODI ARIAN CYMUNEDOL

CYNNWYS

Croeso	.....	1
Yr hyn yr ydym yn ei wneud	.....	3 - 4
Mae ychydig yn mynd ymhell	.....	5 - 6
Adran 1: Codi arian eich hun	.....	9 - 15
Adran 2: Dathlu a rhoi	.....	16 - 21
Adran 3: Sut i wella eich codi arian	.....	22- 23
Adran 4: Ffyrdd o dderbyn cyfraniadau	.....	24 - 27
Adran 5: Ffyrdd i dalu eich cyfraniad i mewn	.....	28
Adran 6: Pethau i'w gwneud a pheidio â'u gwneud wrth godi arian	.....	30 - 40
Adran 7: Cwestiynau Cyffredin	.....	41 - 42
Mwy am Rhodd Cymorth	.....	43 - 46
Cofrestru i godi arian	.....	47
Manylion cyswllt	.....	47 - 48

Registered with/Cofrestrwyd gyda'r
FUNDRAISING REGULATOR
RHEOLEIDDIWR CODI ARIAN

CROESO

DIOLCH I CHI AM EICH DIDDORDEB MEWN CODI ARIAN I HIJINX

Rydym yn Elusen Gofrestredig (Rhif 1078358) ac yn un o brif gwmnïau theatr cynhwysol y Deyrnas Unedig.

Gyda'n canolfan yng Nghymru, rydym yn gweithio'n genedlaethol a rhyngwladol i wneud y celfyddydau a chymdeithas yn fwy cynhwysol i bobl ag anabledd dysgu ac awtistig, nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol o bell ffordd.

Pirates of the Odyssey Inn - Kirsten McTernan

YR HYN YR YDYM YN EI WNEUD

Rydym yn rhoi hyfforddiant perfformio proffesiynol i actorion ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth yng Nghymru, yn creu cynyrchiadau theatr a ffilmiau dewr, gwirioneddol gynhwysol ac yn cynnig yr unig ddarpariaeth ddrama gymunedol yn benodol ar gyfer oedolion a phobl ifanc ag anabledd dysgu ac awtistig.

Rydym hefyd yn sicrhau gwaith â thâl i actorion ag anabledd dysgu ac awtistig ar y teledu, yn y theatr ac mewn ffilmiau, ac yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabledd sydd wedi ennill gwobrau sy'n cael ei gyd-arwain gan actorion ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth.

Mae eich ymdrechion codi arian chi yn helpu i wneud hyn yn bosibl. Mae'n cefnogi dros 160 o actorion a chyfranogwyr Hijinx i hyfforddi, perfformio a ffynnu – boed yn broffesiynol neu dim ond am y pleser o fod yn greadigol.

VICTORIA

Bag for Life - Kirsten McTernan

"Mae Hijinx wedi newid fy mywyd. Mae'n wych bod gyda Hijinx, rydych yn teimlo'n rhydd a'ch bod yn gwneud mwy gyda'ch bywyd. Rydych yn cael cyfleoedd nad ydych yn disgwyl iddyn nhw ddigwydd."

Victoria Walters, Actor Hijinx

MAE YCHYDIG YN MYND YMHELL...

GALLAI £10

10 ddarparu offeryn synhwyraidd, fel pelen straen neu droellwr fidget, gan ei gwneud yn haws i unigolyn ag anabledd dysgu neu awtistiaeth gynyddu sgiliau bywyd, hyder a chyfarfod ffrindiau newydd.

GALLAI £30

ddarparu gwisgoedd a cholur, gan drawsnewid ymarfer neu berfformiad yn brofiad hudolus. I lawer o bobl ag anabledd dysgu ac awtistig, mae hyn yn fwy na dim ond gwisg – mae'n gyfle prin i deimlo'n hyderus, yn cael eu dathlu ac yn rhan o rywbeth arbennig.

GALLAI £50

dalu costau llogi lleoliad hygyrch am un sesiwn, gan gynnig lle diogel, cynhwysol lle gall pobl ag anableddau dysgu ac awtistiaeth fynegi eu hunain, ffurfio cyfeillgarwch parhaol a chynyddu sgiliau bywyd.

GALLAI £100

ariannu gweithdy dan arweiniad tiwtor medrus, gan gynnig profiadau sy'n newid bywyd sy'n dysgu sgiliau bywyd hanfodol fel cyfathrebu, gwaith tîm a hunan hyder.

Lost and Found - Jonathan Dunn

Rydym mor falch eich bod chi yma.

Os ydych yn trefnu stondin gacennau, noson gwis, tawelwch noddedig neu rywbeth hollol wreiddiol, mae'r pecyn hwn yn llawn o syniadau, ysbrydoliaeth ac awgrymiadau ymarferol i'ch helpu i wneud iddo ddigwydd.

Yn gwybod beth yr ydych am ei wneud yn barod? Cofrestrwch eich digwyddiad codi arian yma: Ffurflen Gofrestru Digwyddiad Codi Arian.

GADEWCH I NI GYCHWYN ARNI...

ADRAN 1. CODI ARIAN EICH HUN

Oes gennych eich syniad eich hun? Gwych!

Boed fawr neu fach, yn her unigol neu yn ddigwyddiad cymunedol gyda'ch clwb neu grŵp, gall eich creadigrwydd helpu i drawsnewid bywydau.

Gallwch gerdded, coginio, dawnsio, peintio, gwau neu ganu carioci eich ffordd at godi arian at gyfleoedd yn y celfyddydau i bobl ag anabledd dysgu ac awtistig.

Gallwn ddarparu posteri, ffurflenni noddi a hyd yn oed llythyr yn cadarnhau bod eich digwyddiad yn codi arian at Hijinx. Edrychwch ar Adran 3 (tudalennau 22 - 23) am fwy o fanylion!

Angen ysbrydoliaeth? Rhowch dro ar ein A - Y o syniadau codi arian ar dudalennau 11 - 14!

Bag for Life - Kirsten McTernan

A - Y O SYNIADAU CODI ARIAN...

A Arwerthiant celf (gwerthwch eich lluniau, peintiadau neu grefftau)

B Beicio, sgipio, cerdded, mynd ar sgwter noddedig

C Cystadleuaeth liwio

Ch mynd â Chŵn am dro am gyfraniad

D Darllen noddedig (cael eich noddi i ddarllen llyfrau)

Dd ychydig o Ddistawrwydd noddedig

E Enwi tedi (pobl yn cyfrannu i ddyfalu ei enw, os byddant yn dyfalu'n gywir maen nhw'n ennill y tedi!)

F Fideos – twrnament gemau fideo

Ff Ffansio gwisgo gwisg ffansi

G Gwisgo eich hoff liw

H Helfa Drysor (Creu eich helfa drysor)



I I'r tŷ i chwarae gemau bwrdd



J marathon jôcs (faint o jôcs allwch chi eu hadrodd mewn awr)

L Casglu ysbwriel (cael eich noddi i lanhau eich ardal leol)

A - Z OF FUNDRAISING IDEAS CONT... O - Z

Ll Llond y lle o hetiau (gwisgo eich het wirionaf!)

M Marathon

N Noson cwis

O Offer off (cael eich noddi am ddiffodd teclynnau electronig)

P Posau (sawl pos allwch chi eu datrys mewn awr?)



Ph moes a Phryn (gwerthu hen deganau, llyfrau neu ddillad)

R Ras rwystrau yn eich gardd neu barc lleol

Rh Rhoi'r gorau i rywbeth (siocled, teledu, diodydd pefriog)

S Stondin gacennau

T Te parti gyda ffrindiau teulu neu gymdogion

Th Thema – gwisgo ar thema arbennig

W Wy ar lwy

Y Ydw (atebwch ydw i bopeth i gael cyfraniadau!)

Syniad yn barod?
Cofrestrwch eich syniad **yma** – byddem wrth ein boddau yn clywed gennych!

Cadwch eich codi arian yn ddiogel – a sicrhau ei fod yn dilyn y rheolau. Fe welwch awgrymiadau defnyddiol a phethau i'w gwneud a pheidio â'u gwneud yn Adran 6 (tudalennau 30 a 39). Darllenwch y rhain i helpu i gadw popeth yn gyfreithlon, diogel a hwyliog!

Enter the Robots - Kirsten McTernan

ADRAN 2. DATHLU A RHOI

Yn dathlu rhywbeth arbennig? Gwnewch eich pen-blwydd, priodas, dathliad neu ymddeoliad hyd yn oed yn fwy ystyrlon trwy gefnogi Hijinx.

Yn hytrach nag anrhegion, pam na ofynnwch chi i'ch ffrindiau a'ch teulu roi i Hijinx? Neu drefnu gweithgaredd hwyliog ar y diwrnod i godi arian ychwanegol.

Syniadau ar gyfer Achlysuron Arbennig:

Pen-blwyddi

- Trefnwch ddigwyddiad codi arian ar Facebook: (dolen i sefydlu codi arian ar Facebook)
- Trefnwch barti gyda thema gydag awgrym am gyfraniad
- Gofynnwch am gyfraniadau yn hytrach nag anrhegion

Priodasau neu Bartneriaethau Sifil

- Gofynnwch am gyfraniadau yn hytrach nag anrhegion
- Ychwanegwch ddewis cyfraniad i Hijinx at eich rhestr anrhegion priodas
- Trefnwch her hwyliog ar gyfer y wledd fel "Awgrymwch faint fydd hyd araith y gwas am £1", cystadleuaeth ddawnsio, neu garioci

Cerrig milltir eraill

Graddio, ymddeoliad, parti babi – beth bynnag yw'r achlysur, byddai'n fraint i ni fod yn rhan ohono. Dathlwch gyda phwrpas – cofrestrwch eich digwyddiad codi arian yma.

Into the Light - Kirsten McTernan

"Mae'r profiadau yr wyf wedi eu cael ar y llwyfan yn llawn hud, a rhai o'r eiliadau mwyaf balch yn fy mywyd. Mae Hijinx wirioneddol yn rhywbeth sydd â'r grym i newid bywydau pobl er gwell."

Simon Richards, Aelod o Odyssey Hijinx

Doctor Dolittle's Wild Adventure - Kirsten McTernan

SIMON

Grumpy Unicorns - Studio Cano

ADRAN 3. SUT I WELLA EICH CODI ARIAN

Hyrwyddwch yn bell ac agos!

Rhannwch eich digwyddiad codi arian gyda'ch ffrindiau a'ch teulu ar Facebook, Instagram, WhatsApp, LinkedIn a thrwy e-bost.

Os ydych yn rhedeg digwyddiad, gosodwch bosteri mewn caffis, llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol lleol – cofiwch ofyn am ganiatâd yn gyntaf!

Gofynnwch i'ch cyflogwr, clwb neu ysgol rannu'r wybodaeth yn eu cylchlythyr.

Bydd pobl wrth eu bodd yn gweld eich cynnydd! Rhannwch luniau, fideos neu storïau pam bod Hijinx o bwys i chi a sut yr ydych yn codi arian i ni. Mwyaf personol fydd y stori, y mwyaf grymus fydd hi.

Defnyddiwch ein hadnoddau codi arian am ddim:

Gallwn ddarparu:

- Ffurflenni noddi y gellir eu hargraffu
- Posteri y gellir eu haddasu (gall y rhain gael eu hargraffu a/neu eu rhannu ar gyfryngau cymdeithasol)
- Llythyr caniatâd

Pan fyddwch yn llenwi eich ffurflen gofrestru codi arian, rhowch wybod i ni pa adnoddau y byddech yn hoffi eu cael ac a fyddech yn hoffi i Hijinx rannu gwybodaeth am eich digwyddiad ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Peidiwch ag anghofio tagio Hijinx yn unrhyw negeseuon cyfryngau cymdeithasol y byddwch yn eu rhannu: @HijinxTheatre

Drama Foundations - Chris Lloyd

ADRAN 4. FFYRDD O DDERBYN CYFRANIADAU A SUT I'W TALU I MEWN

1. Dewis a argymhellir: Give As You Live

Give as you Live
Donate

Rydym yn argymell defnyddio Give as you Live Donate i sefydlu tudalen godi arian.

Mae'n hawdd ei ddefnyddio, ac mae'r cyfraniadau'n mynd yn syth i Hijinx. Crëwch eich tudalen godi arian yma: Tudalen Hijinx Give as you Live.

2. Platfformau ar-lein eraill

Platfformau ar-lein eraill sy'n rhoi'n uniongyrchol i Hijinx (sylwer, gall rhai ffioedd fod yn berthnasol):

Facebook - sefydlwch dudalen codi arian pen-blwydd neu achlysur

Instagram – rhannwch eich her a defnyddio sticeri cyfrannu mewn storïau

JustGiving – platfform codi arian adnabyddus (sylwer: efallai y bydd ffioedd)

Os nad ydych am sefydlu tudalen godi arian, gallwch annog ffrindiau a theulu i roi yn uniongyrchol trwy un o'r dulliau 'Ffyrdd i dalu eich cyfraniad i mewn' yn Adran 5 ar dudalen 28.

3. Casgliadau arian parod

Os ydych wedi codi arian mewn arian parod:

- ✓ Gofalwch bod dau oedolyn yn cyfri'r arian yr ydych wedi ei godi gyda'i gilydd
- ✓ Cadwch yr arian yn ddiogel a saff
- ✓ Peidiwch â chludo symiau mawr o arian parod ar eich pen eich hun
- ✓ Talwch yr arian i mewn cyn gynted â phosibl ar ôl eich gweithgaredd codi arian
- ✓ Gallwch ei dalu i mewn trwy un o'r dulliau 'Ffyrdd i dalu eich cyfraniad i mewn' yn Adran 5 ar dudalen 28
- ✗ Plîs peidiwch ag anfon arian parod yn y post

4. Darllenwyr cardiau a thaliadau digyswllt

Os ydych yn defnyddio darllenwr cardiau neu offeryn taliadau digyswllt:

- Gofalwch ei fod yn cysylltu â'ch cyfri chi eich hun neu eich platfform codi arian.
- Yna rhowch y cyfanswm a godwyd i Hijinx gan ddefnyddio un o'r dulliau yn Adran 5 'Ffyrdd i dalu eich cyfraniad i mewn' ar y dudalen nesaf.

The Flop - Jonathan Dunn

ADRAN 5. FFYRDD I DALU EICH CYFRANIAD I MEWN

Trwy'r wefan

Dros y ffôn: Call 02920 300331

Trwy drosglwyddiad banc: Anfonwch e-bost i gael manylion

Trwy'r post - Anfonwch sieciau (yn daladwy i Hijinx Theatre) at:

Theatr Hijinx
Canolfan Mileniwm Cymru
Bute Place
Bae Caerdydd
CF10 5AL

Trwy GiveAsYouLive, Facebook, Instagram neu JustGiving - bydd yr arian yn dod yn uniongyrchol i ni, ni fydd angen i chi wneud dim byd arall.

RHIANT I UN O GYFRANOGWYR TELEMACHUS

Pirates of the Odyssey Inn - Kirsten McTernan

"Mae'n swnio'n ddramatig ond [mae Hijinx] yn newid bywydau. Nid oedd gan fy merch fywyd o gwbl, dim ffrindiau, dim iechyd meddwl da, dim hyder, yn llythrennol dim llais gan na allai siarad â phobl, ond nawr mae'n berson gwahanol."

Rhiant i un o gyfranogwyr Telemachus

ADRAN 6. PETHAU I'W GWNEUD A PHEIDIO Â'U GWNEUD WRTH GODI ARIAN

Er mwyn sicrhau bod eich codi arian yn ddiogel, cyfreithlon a pharchus, darllenwch yr adran hon yn ofalus.

Cofiwch

Cadwch bethau'n syml!

Nid oes angen i chi gynllunio digwyddiad mawr, cymhleth – mae rhai o'r digwyddiadau codi arian gorau yn fach, yn isel eu cost ac yn hawdd eu trefnu. Mae pob tamaid o gefnogaeth yn cyfri.

Esboniwch yn glir eich bod yn codi arian at Hijinx

Mae eich gweithgaredd yn annibynnol ac nid yw'n cael ei drefnu gan Theatr Hijinx.

Dywedwch bob amser, os gwelwch yn dda, eich bod yn codi arian "er budd Hijinx" yn hytrach nag "ar ran Hijinx".

Defnyddiwch ein logo a'n deunyddiau y gellir eu lawrlwytho

Ar ôl i chi gofrestru eich digwyddiad codi arian, byddwn yn anfon y logo "Er budd Hijinx" swyddogol, canllawiau brandio syml a rhai adnoddau y gellir eu hargraffu atoch i'ch helpu i hyrwyddo eich digwyddiad. Gofalwch sicrhau ein bod yn cymeradwyo unrhyw ddeunyddiau sy'n defnyddio ein henw neu logo cyn argraffu neu gyhoeddi.

In aid of Hijinx Er budd

APPROVED APPROVED

Cadwch ddata personol yn ddiogel

Os ydych yn casglu gwybodaeth (e.e. ar ffurflen noddi):

- Cadwch hi'n ddiogel
- Peidiwch â'i chadw yn hwy nag y mae arnoch ei hangen
- Peidiwch byth â'i rhannu heb ganiatâd
- Gwaredwch hi'n briodol wedyn
- Os nad oes arnoch angen enwau neu wybodaeth sut i gysylltu â phobl – peidiwch â'u casglu. Lleiaf yn y byd o ddata y byddwch yn ei gasglu, lleiaf yn y byd y bydd raid i chi boeni am ei gadw yn ddiogel.

Anfonwch ffurflenni noddi wedi eu llenwi (gyda'ch manylion cyswllt at:

Theatr Hijinx
Canolfan Mileniwm Cymru
Bute Place
Bae Caerdydd
CF10 5AL

Byddwch yn ddidwyll o ran ble mae'r arian yn mynd

Rhowch wybod yn glir i bobl os yw'r arian i gyd yn mynd i Hijinx, neu os bydd cyfran yn talu costau (e.e. llogi lleoliad neu ddeunyddiau). Mae tryloywder yn cynyddu ymddiriedaeth!

Dilynwch gyngor diogelwch a risg ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus

- Meddyliwch am hygyrchedd, diogelwch, hylendid bwyd a'r tywydd
- Ystyriwch gynnal asesiad risg syml
- Mynnwch unrhyw drwyddedau neu yswiriant all fod yn angenrheidiol, yn neilltuol ar gyfer mannau cyhoeddus neu werthiannau bwyd/diod
- Gwiriwch gyda'ch cyngor lleol os nad ydych yn sicr
- Ni all Hijinx dderbyn atebolrwydd am eich digwyddiad ond rydym yn hapus i'ch cynghori!

Ystyriwch Gystadleuaeth a Gwobr neu Dynnu Enw o Het yn hytrach na raffl

Maen nhw'n hwyl, cyfreithlon, ac nid oes angen trwydded gamblo ar eu cyfer:

- Cystadleuaeth a Gwobr: Pobl yn talu am gystadlu a rhaid iddynt gyflawni tasg yn seiliedig ar sgil (e.e. cwis neu bos)
- Tynnu Enw o Het Am ddim: Cystadlu am ddim, ond croesawir rhoddion. Mae gan bawb gyfle cyfartal i ennill os ydyn nhw'n cyfrannu neu beidio

Cadwch gofnod o'ch incwm a'ch treuliau

Hyd yn oed ar gyfer digwyddiadau codi arian bach, mae'n arfer da ysgrifennu faint ydych chi'n ei godi a faint yr ydych yn ei wario.

Gwnewch y cyfan yn hwyl ac yn gynhwysol

Dewiswch weithgareddau y gall pawb eu mwynhau ac ystyried anghenion hygyrchedd os ydych yn cynllunio digwyddiad.

Dywedwch diolch!

Diolchwch i bawb sy'n cymryd rhan neu'n cyfrannu. Mae diolch syml yn mynd ymhell ac yn gwneud i bobl deimlo'n dda am gefnogi eich ymdrechion.

TRUTH! - Kirsten McTernan

Peidiwch â

Peidiwch â dweud eich bod yn cynrychioli Hijinx yn swyddogol

Rydych yn gefnogwr gwych sy'n codi arian at Hijinx, ond nid yw eich gweithgaredd yn ddigwyddiad swyddogol gan Hijinx.

Peidiwch â chasglu o ddrws i ddrws neu ar y stryd

Nid yw Hijinx yn caniatáu casglu ar y stryd nag o ddrws i ddrws. Yn hytrach, ystyriwch leoliadau preifat (e.e. siopau lleol, ysgolion, neuaddau cymunedol neu ddigwyddiadau) gyda chaniatâd.

Peidiwch â chasglu ar eiddo preifat heb ganiatâd

Os ydych yn casglu rhoddion mewn mannau fel canolfannau siopa, theatrau neu gartref rhywun, gofalwch eich bod yn cael caniatâd gan y perchennog neu'r rheolwr yn gyntaf.

Peidiwch â rhoi pwysau ar unrhyw un i gyfrannu

Byddwch yn gwrtais, parchus, a pheidiwch â gwneud i unrhyw un deimlo yn anghyfforddus am roi.

Peidiwch at atal mynedfeydd, ymyrryd â phobl wrth eu gwaith, neu gasglu yn ysmygu neu yfed alcohol.

Peidiwch â chynnwys plant dan 16 oed mewn ffyrdd sy'n torri'r rheolau

- Dim plant heb oruchwyliaeth
- Dim casgliadau cyhoeddus
- Dim prynu tocynnau raffl
- Dim ffotograffiaeth heb ganiatâd rhieni

Peidiwch â rhedeg rafflau, loterïau neu arwerthiannau heb ddeall y gyfraith

Ni all Hijinx gefnogi na derbyn atebolrwydd am y mathau hyn o ddigwyddiadau oherwydd cyfreithiau gamblo'r Deyrnas Unedig.

Peidiwch ag anghofio gwirio os oes arnoch angen yswiriant

Gall rhai lleoliadau neu weithgareddau ofyn am yswiriant atebolrwydd cyhoeddus – gwiriwch cyn dechrau.

Peidiwch â theimlo bod raid i chi wario llawer o arian

Nid oes arnoch angen cyllideb fawr i gael effaith mawr. Cadwch y costau yn isel, byddwch yn greadigol a chanolbwyntio ar yr hwyl!

Peidiwch ag anghofio dathlu eich ymdrechion!

Tynnwch luniau (gyda chaniatâd), rhannwch eich llwyddiant, a thagio Hijinx – rydym wrth ein boddau yn eich cefnogi!

Meet Fred - Studio Cano

ADRAN 7. CWESTIYNAU CYFFREDIN

Sut fydd yr arian y byddaf yn ei godi yn cael ei ddefnyddio? Bydd yn mynd yn uniongyrchol tuag at ein gwaith yn creu cyfleoedd hygyrch, cynhwysol yn y celfyddydau.

A all fy rhodd fynd at brosiect penodol? Rhowch wybod i ni pan fyddwch yn llenwi'r ffurflen gofrestru digwyddiad codi arian ac fe wnawn ni'n gorau i anrhydeddu'ch dymuniadau.

Sut allai anfon fy nghyfraniad i mewn? Gweler adran 5 (tudalen 28) i weld yr holl ffyrdd y gallwch dalu'r arian y byddwch wedi ei godi i mewn.

Beth yw Rhodd Cymorth? Mae Rhodd Cymorth yn gynllun gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n galluogi elusennau cofrestredig yn y Deyrnas Unedig i hawlio treth yn ôl gan CThEM am gyfraniadau a wnaed gan drethdalwyr yn y Deyrnas Unedig (mwy am hyn ar dudalennau 43 - 46).

A allwch chi hawlio Rhodd Cymorth? Gallwn – os yw'r rhoddwr yn drethdalwr yn y Deyrnas Unedig, gallwn hawlio 25% yn ychwanegol heb unrhyw gost i'r un sy'n rhoi.

A fyddaf yn derbyn diolch a newyddion diweddaraf? Yn bendant! Byddwn yn anfon diolch ac yn gadael i chi wybod beth yw effaith eich cyfraniad.

A allaf ddefnyddio eich logo? Gallwch! – defnyddiwch y ffurflen i gofrestru eich digwyddiad codi arian a byddwn yn anfon y logo a chanllawiau swyddogol "At Hijinx".

Allwch chi hyrwyddo fy nigwyddiad ar eich cyfryngau cymdeithasol? Gallwn! – defnyddiwch y ffurflen i gofrestru eich digwyddiad codi arian fel ein bod yn gallu eich cefnogi chi ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol.

A allaf gael rhywbeth swyddogol i brofi fy mod yn codi arian i chi? Gallwch – gallwn ddarparu llythyr caniatâd os gofynnwch amdano.

RHODD CYMORTH

Mae Rhodd Cymorth yn ffordd syml o wneud i'ch cyfraniad fynd ymhellach os ydych yn drethdalwr yn y Deyrnas Unedig – heb unrhyw gost ychwanegol i chi.



Beth yw trethdalwr yn y Deyrnas Unedig?

Trethdalwr yn y Deyrnas Unedig yw rhywun sy'n talu treth i lywodraeth y Deyrnas Unedig.

Mae hyn yn digwydd fel arfer pan fyddwch yn:

- Ennill arian o swydd neu eich busnes eich hun
- Yn derbyn pensiwn
- Yn gwneud arian o bethau fel rhentu eich eiddo i rywun neu ennill llogau ar gynilion

Rydych yn drethdalwr yn y Deyrnas Unedig os ydych yn talu:

- Treth Incwm (ar enillion)
- Neu Treth Enillion Cyfalaf (ar elw pan fyddwch yn gwerthu rhywbeth gwerthfawr)

Nid oes raid i chi fod wedi eich geni yn y Deyrnas Unedig – ond rhaid i chi fod yn byw neu'n gweithio yn y Deyrnas Unedig ac yn talu treth y Deyrnas Unedig.

Os ydych yn drethdalwr yn y Deyrnas Unedig, gallwn hawlio 25c yn ychwanegol am bob £1 y byddwch yn ei rhoi trwy'r cynllun Rhodd Cymorth.

Mae hyn yn golygu bod cyfraniad o £10 yn mynd yn £12.50 i Hijinx – mor syml â hynny!

Dim ond ar roddion personol gan drethdalwyr y Deyrnas Unedig y gallwn hawlio Rhodd Cymorth.

More information about Gift Aid:

Sylwer, os gwelwch yn dda - os byddwch yn dweud "ydw" i Rhodd Cymorth:

Rhaid i chi fod wedi talu digon o dreth yn yr un flwyddyn ar gyfer yr hyn y bydd yr elusen yn ei hawlio yn ôl (25c am bob £1 y byddwch yn ei rhoi).

Os na fyddwch wedi talu digon o dreth, bydd raid i chi dalu'r gwahaniaeth i CThEM – mae hynny'n golygu y gofynnir i chi dalu'r rhodd cymorth y mae Hijinx wedi ei hawlio ar eich cyfraniad.

Ni allwn hawlio Rhodd Cymorth ar:

- Werthiant tocynnau
- Rafflau, arwerthiannau na thynnu enw o het
- Casgliadau na rhoddion gan grŵp (e.e. o ddigwyddiad codi arian gan fusnes, clwb neu ysgol)

Os ydych yn casglu rhoddion arian parod gan ffrindiau neu deulu, a'u bod yn hapus i roi Rhodd Cymorth, gofynnwch iddyn nhw lenwi eu manylion ar eich ffurflen noddi – fe welwch un yn yr adran adnoddau i'w lawrlwytho o'r pecyn hwn.

Ar ôl i'r ffurflenni noddi gael eu llenwi, dychwelwch at:

Theatr Hijinx
Canolfan Mileniwm Cymru
Bute Place
Bae Caerdydd
CF10 5AL

Mae'n gam bach sy'n cael effaith fawr!

DECHREUWCH ARNI NAWR

Ddiddordeb mewn codi arian i Hijinx?

COFRESTRWCH YMA

ANGEN UNRHYW HELP?

Rydym yma i'ch helpu i wneud eich digwyddiad codi arian yn llwyddiant!

www.hijinx.org.uk

02920 300331

Cysylltwch â ni yma

Theatr Hijinx
Canolfan Mileniwm
Cymru
Bute Place
Bae Caerdydd
CF10 5AL

Eloise Tong

Cyfarwyddwr Gweithredol a Chyd-Brif Swyddog Gweithredol
eloise.tong@hijinx.org.uk
02920 300331

Greta Bettinson

Swyddog Datblygu
greta.bettinson@hijinx.org.uk
02920 300331

Caitlin Rickard

Rheolwr Marchnata a Datblygu Cynulleidfa
caitlin.rickard@hijinx.org.uk
02920300331

DIOLCH I CHI AM EICH CEFNOGAETH.

Os oes gennych gŵyn, darllenwch ein polisi cwynion yma a dilyn y wybodaeth berthnasol.

Housemates - Mark Douet
Hijinx
Registered with/Cofrestrwyd gyda'r
FR
FUNDRAISING
REGULATOR
RHEOLEIDDIWR
CODI ARIAN